



Uchelgais Gogledd Cymru  
Ambition North Wales

# Pecyn Swydd ar gyfer y Rheolwr Rhaglen Ynni a Sero Net

[uchelgaisgogledd.cymru](http://uchelgaisgogledd.cymru)

# Cynnwys

Cyflwyniad	3
Am y swydd	4
Swydd Ddisgrifiad	5
Manylion Person	7
Ymunwch a'r Tîm	9
Ein Gwerthoedd	10
Amserlen Recriwtio	11
Gweithio i ni	11
Buddion	12
Cynllun Twf Gogledd Cymru	13

Am fwy o wybodaeth am y swydd,  
cysylltwch â:



Hedd Vaughan-Evans  
Head of Operations  
[swyddi@uchelgaisgogledd.cymru](mailto:swyddi@uchelgaisgogledd.cymru)

# Amser cyffrous i ymuno â'r tîm

Rydym wrth ein bodd eich bod yn ystyried ymuno â thîm Uchelgais Gogledd Cymru. Rydym yn dîm o unigolion angerddol a brwdfrydig sy'n falch o fod yn rhan o ddatblygu economi Gogledd Cymru. Rydym yn gyfrifol am gyflawni portffolio o brosiectau cyfalaf ar draws y rhanbarth, ac rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf. Cymeradwywyd y prosiect cyntaf ym mis Rhagfyr 2021 a byddwn yn gweld llawer mwy o brosiectau yn symud ymlaen eleni. Ni fu erioed amser mwy cyffrous i ymuno â'r tîm.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn bartneriaeth gref, sy'n gweithio ar ran Gogledd Cymru i gyflawni yn erbyn gweledigaeth ar gyfer ffyniant economaidd i'r dyfodol. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i sefydlu i gyflawni'r Cynllun Twf, a chefnogi'r uchelgais rhanbarthol ar gyfer economi cryfach, mwy gwydn a chynaliadwy yn y dyfodol.

Ein huchelgais wrth symud ymlaen yw denu buddsoddiad i Ogledd Cymru a chyflawni dyfodol mwy lle wyrchus i bawb sy'n byw ac yn gweithio yma. Bydd prosiectau'r Cynllun Twf yn creu swyddi newydd â chyflogau uchel, yn denu buddsoddiad ac yn y pen draw yn adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn ein cymunedau, ar gyfer pobl ifanc ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn gweithio'n agos fel tîm ac wedi datblygu set o werthoedd sy'n ategu sut rydymyn gweithio a'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan eraill. Rydym yn uchelgeisiol, rydym yn grymuso ac yn cefnogi ein gilydd i lwyddo, mae gennym uniondeb ac rydym yn gwneud fel y dywedwn ac rydym yn parchu ac yn gwerthfawrogi pobl a'u safbwyntiau wrth i ni lunio dyfodol gwydn i Ogledd Cymru. Gobeithiwn y byddwch yn ystyried gwneud cais am y swydd hon a gobeithio y byddwch yn ymuno â ni ar y daith.



**Cyng. Mark Pritchard**

Cadeirydd y Bwrdd  
Uchelgais



**Alwen Williams**

Cyfarwyddwr Portffolio  
Uchelgais Gogledd  
Cymru

# Am y swydd

## RHEOLWR RHAGLEN YNNI CARBON ISEL

Mae'r Rheolwr Rhaglen Ynni a Sero Net yn gyfrifol am gyflawni rhaglen Ynni Carbon Isel y Cynllun Twf. Nod Rhaglen Ynni Carbon Isel Cynllun Twf Gogledd Cymru yw datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsnewidiol a gosod Gogledd Cymru fel lleoliad blaengar yn y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesi a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.

Mae'r Rhaglen ar hyn o bryd yn cynnwys chwe prosiect:

- Egni
- Cydnerth
- Ynni Lleol Blaengar
- Trawsfynydd
- NEW-H2
- Hwb Hydrogen Caergybi

Yn ogystal â phrosiectau'r Cynllun Twf, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni Strategaeth Ynni'r Rhanbarth a'r Cynlluniau Ynni Ardal Leol mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru.

Yn ogystal â phrosiectau'r Cynllun Twf, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni strategaethau rhanbarthol eraill a chynlluniau gweithredu ac mae cyfleon fel arweinydd y rhaglen i adnabod meysydd Gwaith a chyfleoedd ariannu perthnasol a allai ychwanegu gwerth at waith craidd y rhaglenni.

Fel aelod o'n tîm rheoli, mae'r swydd hon yn gyfle i chwarae rhan flaenllaw wrth gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru a sicrhau buddion i Ogledd Cymru. Mae ein tîm yn gweithio ar y cyd â strwythur gwastad sy'n canolbwyntio ar gydgyfrifoldeb a llwyddiant. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i ymgysylltu a dylanwadu ar weithgareddau y tu hwnt i'r rhaglen. Byddwch hefyd yn cael cyfle i arwain ar themâu trawsbynciol ar draws y portffolio.

Y Rheolwr Rhaglen yw'r arweinydd ynni ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru, gan ddarparu cyngor strategol i'n Bwrdd yn ogystal â rheoli, cydlynu a goruchwyllo'r gwaith o gyflawni'r rhaglen Ynni Carbon Isel.

Mae'r adnodd cyflawni ar gyfer y rhaglen yn gymysgedd o gapasiti rheoli prosiect mewnol a noddwyr prosiectau allanol gan sicrhau llwyth gwaith amrywiol a diddorol a'r cyfle i lunio, cyfarwyddo a dylanwadu ar brosiectau a rhanddeiliaid ar lawer o wahanol lefelau.

Ar hyn o bryd, nid yw'r un or prosiectau yn weithredol, ond mae tri o'r prosiectau wedi cael cymeradwyaeth i'w Achosion Busnes Amlinellol, mae'r prosiectau i gyda ar wahanol gamau o aeddfedwydd. Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith i ddechrau yn siapio a datblygu achosion busnes i'w cymeradwyo cyn i'r rhaglen drosglwyddo i gyflenwi'r prosiect a gwireddu buddion.

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sydd â phrofiad sylweddol o reoli rhaglenni a phrosiectau ac sydd â gwybodaeth am o leiaf un o'r sectorau a gwmpesir gan y rhaglenni. Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn arweinydd cydweithredol gydag ethos cryf o ddatblygu staff, yn gallu ymgysylltu â rhanddeiliaid a dylanwadu arnynt ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a bydd ganddo hanes cryf o gyflawni rhaglenni a phrosiectau.

# Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

## Pwrpas y swydd

- Arwain y Rhaglen Ynni Carbon Isel gan gynnwys dylunio, negodi a chynllunio;
- Rheoli, cydlynu a gweithredu'r rhaglen Ynni Carbon Isel;
- Datblygu, negodi a chytuno'r achosion busnes ar gyfer yr holl brosiectau o fewn sgôp y rhaglen(ni);
- Trosolwg o weithredu'r prosiectau ar draws y rhaglen gan gynnwys dyluniad a chynllunio, gweithredu a chasgliadau'r prosiectau unigol;
- Cyflawni deilliannau a thargedau'r prosiectau unigol a'r rhaglen gronnus ar amser ac o fewn yr adnoddau sydd wedi'u neilltuo;
- Cydlynu, cynllunio a gweithredu rhaglenni ar y cyd a rhyngddibynnol o fewn y Cynllun Twf a'r Weledigaeth gan gynnwys rheoli risg a gwireddu buddion;
- Cyfrannu at weithredu Gweledigaeth Twf rhanbarthol a Fframwaith Economaidd Rhanbarthol a chydlynu darpariaeth y Strategaeth Ynni Rhanbarthol a Chynlluniau Ynni Ardal Leol ar draws Gogledd Cymru.

Cyflog	£58,121-£61,311 (UR2)
Oriau	Hyd at 37 awr yr wythnos*
Cytundeb	Parhaol
Lleoliad	Cyffordd Llandudno (hybrid gyda gweithio o gartref)

\* Mae'r swydd yn llawn amser, ond byddwn yn ystyried ceisiadau gweithio'n hyblyg ar gyfer yr ymgeisydd cywir

## Cyfrifoldeb am swyddogaethau

- Rheoli cyllideb y rhaglen o hyd at £100m, monitro'r gwariant a'r costau yn erbyn y buddion a ddarparwyd a'r buddion a wireddwyd wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen.
- Bod yn rheolwr llinell ar hyd at 5 aelod o staff
- Bod yn gyfrifol am offer perthnasol yn cynnwys gliniaduron a ffonau symudol

# Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

## Rheolaeth Rhaglen

- Cynnal a gwella systemau a disgyblaethau rheoli rhaglenni i safon diwydiant;
- Goruchwylio materion dylunio, negodi, cytuno a chynllunio o fewn y rhaglen;
- Cydlynu a gweithredu'r rhaglen Ynni Carbon Isel;
- Cydlynu a rheoli ar y cyd y rhyng-ddibyniaethau ar draws rhaglenni a phrosiectau gan gynnwys rheoli risg a gwireddu buddion.

## Rheolaeth Prosiect

- Cynnal a gwella systemau a disgyblaethau rheoli prosiect i safon diwydiant;
- Goruchwylio prosiectau lluosog trwy ddylunio a chwblhau achosion busnes gan gynnwys negodi a chytuno gyda noddwyr prosiectau;
- Goruchwylio cyflawni a gweithredu prosiectau lluosog o fewn y rhaglenni;
- Sicrhau ansawdd yr holl waith prosiect.

## Llywodraethu Rhaglenni a Chontractau

- creu a rheoli cerbydau cyflawni newydd fel sydd angen
- negodi a rheoli contractau

## Rheoli Adnoddau

- rheoli cyllidebau a grantiau rhaglenni refeniw a chyfalaf
- cyflawni unrhyw dargedau incwm a masnachol sydd wedi'u gosod

## Rheoli Perfformiad

- rheoli perfformiad ac atebolrwydd ar lefelau allbynnau rhaglenni a phrosiectau
- rheoli risg ac atebolrwydd ar lefelau allbynnau rhaglenni a phrosiectau
- rheoli timau a phobl - cefnogi a datblygu adroddiadau uniongyrchol i lwyddo yn eu rolau a chefnogi datblygiad ehangach y tîm fel rhan o'r tîm rheoli.

## Adrodd ac Atebolrwydd

- adrodd ar gynllunio a rheoli rhaglenni, prosiectau ac adnoddau ar lefel Bwrdd ac i'r Llywodraethau, y partneriaid a'r rhanddeiliaid sy'n ariannu
- sicrhau ansawdd yr holl adroddiadau data a pherfformiad
- gweithredu fel ymgynghorydd arbenigol y mae ymddiriedaeth ynddo/ynddi

## Llysgenhadol

- Gweithredu fel lladmerydd ar gyfer partneriaeth Uchelgais Gogledd Cymru, y Cynllun Twf a'r rhanbarth;
- Datblygu, rheoli a chynnal perthnasau allanol effeithiol ar bob lefel;
- Rheoli cyfathrebu allanol a chysylltiadau cyhoeddus.

## Strategol

- strategaeth hir-dymor ar y cyd - datblygu a chynllunio

## Cydymffurfiaeth ac Ymddygiad

- Gweithio i holl bolisiau, gweithdrefnau a'r gyfraith a osodwyd e.e. ariannol, cydraddoldeb, iechyd a diogelwch;
- Arddangos y safonau uchaf o ymddygiad proffesiynol a gwerthoedd;

## Yn Benodol i'r Rhaglen

- Trosolwg o gyflawni Strategaeth a Chynllun Gweithredu Ynni Rhanbarthol a'r Cynlluniau Ynni Ardal Lleol mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru;
- Bod â chyfrifoldeb cyffredinol am gyflawni'r rhaglen Ynni Carbon Isel o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru, gan sicrhau fod y prosiectau yn cyflawni ei targedau;
- Arwain ar negodi gyda noddwyr prosiect, buddsoddwyr a rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, gan ddarparu'r wybodaeth a'r arbenigedd angenrheidiol i gefnogi'r achos busnesi fuddsoddi mewn prosiectau;
- Sefydlu partneriaethau cryf gyda chanolbwyntiau a rhaglenni trawsffiniol i gefnogi nodau strategol yn y Strategaeth Ynni Rhanbarthol ac ymelwa ar gyfleoedd cyd-fuddsoddi.
- Arwain a rheoli y tîm rhaglen Ynni Carbon Isel a'r Tîm Ynni Strategol a fydd yn cefnogi cyflawni'r canlyniadau a'r buddion sy'n gysylltiedig â'r prosiectau a'r ffrydiau gwaith;
- Rheoli gwaith ynni Uchelgais Gogledd Cymru i gynnwys darparu cefnogaeth ac arweiniad i uwch aelodau a swyddogion er mwyn llywio penderfyniadau;
- Gweithio gyda datblygwyr prosiectau, grwpiau cymunedol, darparwyr ynni a chyflenwyr rhwydwaith a phartneriaid eraill i sicrhau bod Gogledd Cymru mewn sefyllfa dda i elwa ar y chwyldro ynni, mentrau sero net a datgarboneiddio a chyfleoedd ariannu.

# Manylion Person

## Meinir Prawf

Hanfodol

Dymunol

### Cymwysterau Addysgol / Proffesiynol

- Gradd/ôl-radd mewn maes perthnasol (neu gyfatebol)
- Aelod o Sefydliad Proffesiynol



### Gwybodaeth a Sgiliau

- Sgiliau arweinyddiaeth, sgiliau rhyngbersonol a sgiliau cyfathrebu effeithiol
- Gwybodaeth dda o ddulliau rheoli rhaglenni a phrosiectau
- Gwybodaeth dda am dechnegau cynllunio, monitro a rheoli rhaglenni
- Gwybodaeth am bwnc y rhaglen ynni
- Dealltwriaeth o'r broses caffael
- Dealltwriaeth o arferion rheolaeth ariannol
- Digon o awdurdod a hygredded i fedru cyngori timau prosiect am eu prosiectau o ran eu perthynas â'r rhaglen
- Llythrennog mewn TGCh, yn gyfforddus gyda Word, PowerPoint, Excel a chronfeydd data a chyfryngau cymdeithasol perthnasol
- Ymwybyddiaeth o dechnolegau cyfredol a rhai newydd yn y diwydiannau cyflenwi a chynhyrchu ynni
- Sgiliau negodi lefel uchel yn cynnwys sicrhau cymeradwyaeth o fewn trefniadau llywodraethu cymhleth
- Gwybodaeth am bolisiau a rheoliadau cenedlaethol sy'n effeithio ar feysydd y rhaglenni
- Profiad o ymgysylltu gyda'r cyhoedd/rhanddeiliaid yn effeithiol
- Gwybodaeth am fuddion pynciau rhaglenni penodol i dwf economaidd
- Profiad o ddatblygu achosion busnes
- Profiad o weithio gydag Aelodau Etholedig ac ymdrin â materion sy'n wleidyddol sensitif



### Profiad

- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus
- Profiad blaenorol o reoli cyllidebau
- Profiad blaenorol o reoli staff
- Profiad mewn cyflawni prosiectau, datrysiadau a rhaglenni ynni
- Profiad o flaenoriaethu cyfleoedd strategol a sicrhau consensws ar gyfer dethol prosiectau
- Profiad o gyflawni rhaglenni a/neu prosiectau'n llwyddiannus ar amser ac o fewn y gyllideb



# Manylion Person

## Meini Prawf

### Nodweddion Personol

- Dibynadwy
- Yn meddwl yn arloesol
- Yn hyblyg yng nghyswllt meysydd cyfrifoldeb, blaenoriaethau sy'n newid ac yn addasu i newid
- Sgiliau trefnu ardderchog
- Yn gallu gweithio ar ei liwt ei hun ac fel rhan o dîm
- Yn gallu gweithio dan bwysau ac yn meddu ar strategaethau ymdopi i weithio mewn amgylchedd sydd yn gweithredu ar gyflymder
- Gallu wedi'i brofi i gwrdd â therfynau amser a thargedau
- Y gallu i symbylu ac ysbrydoli eraill i weithredu

## Hanfodol

## Dymunol



### Gofynion Iaith

- Gwrando a Siarad - Yn gallu ymdrin â holl agweddau'r swydd yn llafar mewn modd hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Darllen a Deall - Yn gallu defnyddio a dehongli unrhyw wybodaeth yn gywir o amrywiaeth eang o ffynonellau, yn y Gymraeg ac yn Saesneg, er mwyn gallu ymdrin â phob agwedd o'r swydd.
- Ysgrifennu - Yn gallu cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn hollol hyderus yn y Gymraeg ac yn Saesneg gan ddefnyddio'r ieithwedd a'r arddull fwyaf priodol i gwrdd ag anghenion y darlennydd.





# Ymunwch a'n tîm

A oes gennych chi angerdd dros Ogledd Cymru ac awydd i weld y rhanbarth yn tyfu ac yn cyflawni ei botensial? Ydych chi'n frwdfrydig, yn ymroddedig ac yn chwaraewr tîm?

Os felly, fe allech chi fod y person rydyn ni'n chwilio am i ymuno â'n tîm.

Fel partneriaeth o'r chwech awdurdod lleol, dwy brifysgol a dau goleg yng Ngogledd Cymru, mae cydweithio a partneriaeth yn greiddiol i'n gwaith fel tîm. Rydym yn chwilio am unigolyn sydd â sgiliau rhyngpersonol rhagorol, sy'n frwd dros weithredu i'r rhanbarth ac yn gallu datblygu a chynnal perthnasoedd ar draws partneriaid i yrru'r prosiectau yn eu blaenau.

Er bod gan bob rôl o fewn y tîm ei ffocws ei hun, bydd disgwyl i chi gyfrannu at waith ehangach y tîm a llwyddiant y tîm cyfan. Rydym yn chwilio am chwaraewyr tîm sy'n gallu arwain eu meysydd eu hunain ond hefyd yn cefnogi eu cydweithwyr i gyflawni. Yn gyfnewid am hyn, fe welwch lwyth gwaith amrywiol a diddorol gyda chyfleoedd i gyfrannu ar draws ein portffolio.

Mae datblygiad proffesiynol a phersonol yn bwysig i ni. Bydd y tîm yn Uchelgais Gogledd Cymru yn rhoi amgylchedd gefnogol i chi barhau â'ch datblygiad gyda nifer o gyfleoedd datblygu ffurfiol ac anffurfiol ar gael. Rydym yn annog ein tîm i ddilyn cyfleoedd datblygu proffesiynol ac rydym yn chwilio am unigolion sydd â'r awydd i ddysgu a gwella.

Mae rhai o'n rolau yn gofyn am sgiliau Cymraeg, fodd bynnag, rydym yn chwilio am unigolion sy'n cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg, sydd ag empathi at y diwylliant Cymreig ac sydd wedi ymrwymo i wella eu sgiliau ieithyddol. Os yw hyn yn swnio fel chi, edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Mae Gogledd Cymru yn lle ardderchog i fyw a gweithio, beth am chwarae rhan allweddol wrth lunio ei ddyfodol?



Hedd Vaughan-Evans

Pennaeth Gweithrediadau  
Uchelgais Gogledd Cymru

# Ein Gwerthoedd



## Rydym yn Uchelgeisiol

Rydym yn ymdrechu i gyflawni'r gorau ar gyfer Gogledd Cymru. Rydym yn arweinwyr yn ein meysydd, ffurfwyr barn a dylanwadwyr, ac rydym yn herio meddwl confensiynol. Rydym yn dilyn safonau uchel, yn anelu at fod yn ein gorau, ac yn datblygu ein hunain yn broffesiynol yn barhaus.



## Rydym yn gweithio ar y cyd

Rydym yn rhannu gwybodaeth, sgiliau, gwybodaeth a chefnogaeth ac yn sicrhau ein bod yn rhoi gwybod i gydweithwyr. Rydym bob amser yn helpu ein gilydd, yn hwyluso cyfleoedd i Ogledd Cymru ac yn cydnabod bod ein heffaith ar y cyd yn fwy sylweddol na'n heffaith unigol.



## Rydym yn gwneud y peth iawn

Rydym ni'n gwneud y peth iawn, nid yr hyn sy'n hawdd. Rydym yn herio ymddygiad anfoesegol ac yn siarad pan nad yw pethau'n teimlo'n iawn. Rydym yn barchus, yn deg ac yn ystyriol a gallwn ymddiried ynddo i gyflawni ymrwymiadau y cytunwyd arnynt ar amser.



## Rydym yn gwneud gwahaniaeth

Rydym yn mynd ar drywydd cyfleoedd i wneud gwahaniaeth yng Ngogledd Cymru. Rydym yn hyrwyddo'r Gymraeg, treftadaeth a diwylliant ac yn cefnogi elusennau rhanbarthol. Rydym yn diogelu'r amgylchedd ac yn chwilio am gyfleoedd i leihau ein hól troed.



# Amserlen Recriwtio



## Dyddiad cau

Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn

20/01/2025



## Rhestr Fer

Byddwn yn anelu i gysylltu gyda y rhai sydd ar y rhestr fer erbyn y dyddiad yma gyda manylion dyddiadau yr asesiadau a'r cyfweiliad.

erbyn  
24/01/2025



## Asesiadau

Bydd asesiadau yn cymryd lle cyn y cyfweiliad. Byddwch yn derbyn y manylion os ar y rhestr fer.

erbyn  
31/01/2025



## Cyfweiliadau

Bydd union ddyddiad/amser yn cael ei gadarnhau ar lunio y rhestr fer.

wythnos yn  
cychwyn  
03/02/2025

# Y Broses Ymgeisio

Dilynwch y linc [yma](#) i gysylltu â phorth recriwtio Cyngor Gwynedd. Bydd gofyn i chi greu cyfrif i gyflwyno cais.

Cofiwch lenwi pob adran o'r ffurflen. Mae croeso i chi gyflwyno eich ffurflen yn Gymraeg neu Saesneg.

Ar ôl y dyddiad cau bydd panel asesu yn asesu eich cais yn erbyn y gofynion a nodir yn y fanyleb bersonol. Cofiwch sicrhau fod eich datganiad personol yn cyfarch yr holl ofynion hanfodol sydd wedi ei gosod allan yn y manylion person.

Bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweiliad, bydd manylion y cyfweiliadau yn cael eu hanfon o leiaf wythnos ymlaen llaw.

Byddwn yn gofyn i ymgeiswyr gwblhau tasg cyn y cyfweiliad (bydd manylion llawn yn cael eu cynnwys yn y llythyr cyfweiliad).

Sylwch na fydd ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried



# Y Cyflogwr

Mae Uchelgais Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn cael eu lletya gan Gyngor Gwynedd fel yr awdurdod cyflogi, ac maent ar hyn o bryd yn y broses o drosglwyddo i mewn i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) yn endidau llywodraeth leol corfforaethol, rhanbarthol newydd sydd â phwerau, dyletswyddau, llywodraethiant a strwythurau gweinyddol tebyg i awdurdodau lleol yng Nghymru.

Sefydlwyd pedwar CBC yng Nghymru ar 1af o Ebrill 2021, yn seiliedig ar yr ardaloedd daearyddol y gofynnwyd amdanynt gan lywodraeth leol, ac yn adlewyrchu trefniadau cydweithio Rhanbarthol oedd yn bodoli eisoes. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cynnwys y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru – Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Ar hyn o bryd mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig dri maes mae'n canolbwyntio arnynt – cynllunio strategol, trafndiaeth strategol a llesiant economaidd.

Yn dilyn y trosglwyddiad, bydd y rôl hon a staff presennol Uchelgais Gogledd Cymru yn cael eu cyflogi gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Disgwylir (yn dibynnu ar y cyfnod rhybudd) y byddai'r rôl hon yn cael ei phenodi a'i chyflogi gan Gyngor Gwynedd yn y man cyntaf ac y bydd wedyn yn trosglwyddo drwy TUPE i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn y dyfodol agos. Ni fydd y Telerau a'r Amodau yn cael eu heffeithio gan y trosglwyddiad.

# Buddion

Mae nifer o fuddion o weithio i Uchelgais Gogledd Cymru, mae manylion llawn ar gael yma. Dyma grynodedb o'r prif fuddion:

## Cynllun Pensiwn

Mae Uchelgais Gogledd Cymru drwy'r Cyngor yn gweithredu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae gwybodaeth am y gronfa ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd

## Gwyliau Blynyddol

Mae gan weithwyr y Cyngor hawl i rhwng 21 a 30 diwrnod o wyliau'r flwyddyn yn ddibynnol ar raddfa'r swydd. Yn ogystal, mae gan weithwyr hawl i 8 diwrnod o wyliau banc / gwyliau cyhoeddus a 3 ½ diwrnod arall

## Absenoldebau Arbennig

Yn ogystal â'r gwyliau uchod, gellir caniatáu absenoldeb gyda thâl mewn amgylchiadau arbennig megis symud tŷ, profedigaeth, mynychu apwyntiadau meddygol, ymgymryd a dyletswyddau cyhoeddus

## Cydbwysedd bywyd a gwaith

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnig nifer o gyfleodd gweithio'n hyblyg er mwyn helpu gweithwyr i daro cydbwysedd iach rhwng bywyd cartref a gwaith. Gall gweithiwr fanteisio o'r trefniadau canlynol:

- Cynllun gweithio oriau ystwyth
- Absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu
- Absenoldeb ychwanegol heb dâl i rieni a gofalwyr
- Gweithio'n hyblyg

## Hyfforddiant a datblygiad

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweld gwerth uchel mewn buddsoddi yn ei adnodd pwysicaf - sef ei weithwyr. Gall pob gweithiwr ddisgwyl:

- Proses anwytho ffurfiol ac adolygiadau perfformiad parhaus
- Ystod eang o gyfleodd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith

# Cynllun Twf Gogledd Cymru

## Nod

- Adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng Ngogledd Cymru.
- Adeiladu ar ein cryfderau, hybu cynhyrchiant wrth fynd i'r afael â heriau tymor hir a rhwystrau economaidd i sicrhau twf cynhwysol.
- Hyrwyddo twf mewn modd graddadwy, cynhwysol a chynaliadwy, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Buddion

- Twf mewn ffyniant rhanbarthol: gwella cynhyrchedd, mewnfuddsoddiad a chreu swyddi newydd.
- Creu swyddi gwell: trwy ymyraethau wedi ei dargedu mewn sectorau gwerth uchel.
- Gweithlu mwy medrus: drwy gefnogi sgiliau a mentrau hyfforddi ac ymyraethau sy'n targedu sectorau gwerth uchel.
- Gwella safon byw: twf cynhwysol sy'n darparu cyfleoedd, yn lleihau tlodi, anghydraddoldeb ac amddifadedd.

### BUDDSODDIAD

Targed buddsoddi Cynllun Twf:

**£240m**

Cyfanswm Targed  
Buddsoddiad Cynllun Twf

**£1bn**

### AMCANION GWARIANT

Creu hyd at

**4,200**

o swyddi newydd

Cynhyrchu hyd at

**£2.4bn**

o GVA ychanegol net

# Ein Rhaglenni

## Bwyd-amaeth a Thwristiaeth



Bydd y rhaglen yn hyrwyddo ac yn cefnogi cyflogaeth a hyfforddiant yn y sectorau Bwyd-amaeth a Thwristiaeth, gan adeiladu ar sgiliau ac arbenigedd sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y rhanbarth.

## Cysylltedd Ddigidol



Bydd y rhaglen yn gwella gallu ein rhanbarth i ddatblygu technolegau ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau y gallwn ateb y galw cynyddol am gysylltedd ddigidol ac elwa o gysylltedd cyflym, o ansawdd uchel.

## Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch



Bydd y rhaglen hon yn hyrwyddo arloesedd a masnacheiddio technoleg yn y diwydiant gweithgynhyrchu, gan adeiladu ar gryfder presennol y sector yn ein rhanbarth.

## Tir ac Eiddo



Bydd y rhaglen hon yn mynd i'r afael â heriau tir ac eiddo yn y rhanbarth, yn gwireddu cyfleoedd ac yn adeiladu ar ein cryfderau.

## Ynni Carbon Isel



Bydd y rhaglen yma'n sicrhau y budd o ddatblygu prosiectau ynni carbon isel yn y rhanbarth, gan gryfhau safle Gogledd Cymru fel lleoliad blaengar ar gyfer y sector ynni carbon isel.

# EIN PARTNERIAID



## £240M O GYLLID Y CYNNLUN TWF GAN







[uchelgaisgogledd.cymru](http://uchelgaisgogledd.cymru)  
[swyddi@uchelgaisgogledd.cymru](mailto:swyddi@uchelgaisgogledd.cymru)